**<u>Y Pwyllgor Diwylliant CC 18-02 p4</u>**

**Dyddiad:** 20 Tachwedd 2002

**Amser:** 9.00am - 12.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

***Y Gyllideb Derfynol***

Rwyf eisoes wedi rhoi adroddiad i chi ar fy nghynigion ar gyfer y gyllideb derfynol. Roeddwn yn falch gyda'r setliad ar gyfer diwylliant, ac yn falch bod Cronfa Diwylliant newydd "Buddsoddi yn ein Dyfodol Creadigol" wedi'i sefydlu.

Mae'r gronfa newydd yn uno cyllidebau rhaglenni a chyfalaf y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym maes diwylliant i greu un gronfa newydd. Bydd £46.8 miliwn yn y gronfa yn 2003/04 a bydd yn codi i £62.3 miliwn yn 2005/06. Golyga hyn y bydd £45.5 miliwn yn ychwanegol ar gael ar gyfer diwylliant yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Nid yw'r cynnydd hwn yn cynnwys y cyllid ychwanegol ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru na’r cyllid i ddarparu'r rhaglenni ar gyfer cynnal Cwpan Ryder yn 2010. Cyfanswm y cynnydd yw £56.3 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.

Yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor ar 23 Hydref dywedais y gallaf yn awr wir ddatblygu fy mlaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth ddiwylliant "Creative Future: Cymru Greadigol". Dywedais hefyd fy mod wedi rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau'r Pwyllgor.

Dywedais mai'r Gymraeg fydd fy mhrif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod. Ar ôl cyhoeddi "Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future" rwy'n bwriadu buddsoddi dros £16 miliwn o arian newydd o'r Gronfa Ddiwylliant i ddatblygu'r Gymraeg dros y tair blynedd nesaf. Mae hwn yn gynnydd sylweddol a bydd yn sicrhau ein bod yn symud ein polisïau yn eu blaenau.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor ataf ar 25 Hydref yn cadarnhau'r prif bwyntiau a wnaed yn y Pwyllgor. Gofynnodd hefyd ynghylch defnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a sut y bydd hynny'n effeithio ar sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol. Cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid yn benodol at Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn ei haraith ar y gyllideb derfynol pan ddwedodd mai enghraifft arall o brosiect yn y categori hwn oedd Clwyd Theatr Cymru. Rydym wrthi'n trafod â Sir y Fflint a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddod o hyd i fecanwaith er mwyn ryddhau'r theatr o'i dyledion i'r awdurdod lleol. Y cam cyntaf yn unig yw hyn - bydd Cyngor y Celfyddydau, Sir y Fflint a'r CTC yn cynnal trafodaethau tymor hirach ar raglen, galluoedd a chynaliadwyedd CTC ar gyfer y dyfodol.

Ymhlith prosiectau diwylliannol pwysig eraill nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Gyllideb ond sy'n rhan o’r hyblygrwydd diwedd blwyddyn presennol neu arfaethedig y mae costau cyfalaf adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru a grant i Amgueddfa'r Glannau, Abertawe, sydd bellach wedi derbyn arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Rydym hefyd yn gweithio'n glós â'r ymddiriedolwyr ar gam nesaf yr Ardd Fotaneg Genedlaethol; gyda'r bartneriaeth sy'n hyrwyddo cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant 2008; gyda'r Cyngor Chwaraeon - yng nghyd-destun ei Adolygiad Pum Mlynedd - ar gynlluniau i adnewyddu Athrofa Chwaraeon Cymru. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi dweud y bydd o bosib yn dod yn ôl at y rhain yn y gyllideb ategol gwanwyn nesaf, gan ddibynnu ar y datblygiadau.

***Canolfan Mileniwm Cymru***

Yn unol â’r Rheolau Sefydlog, rwyf am hysbysu'r Pwyllgor bod y Gweinidog Cyllid wedi cytuno i drosglwyddo £10miliwn o arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn i Brif Grp Gwariant Diwylliant, i greu cyllideb felly ar gyfer taliadau sy’n gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu Canolfan y Mileniwm.

Disgwylir mai tua £15-16 miliwn fydd y taliadau yn 2002-03 a throsglwyddir mwy o hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn ystod arolwg o wariant Ionawr. Byddaf yn rhoi adroddiad pellach ar hyblygrwydd diwedd blwyddyn wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

***Caerdydd 2008***

Roeddwn yn falch iawn bod cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 wedi cyrraedd y rhestr fer. Mae'r Cynulliad yn cefnogi'r cais yn llwyr. Y dinasoedd eraill ar y rhestr fer yw Newcastle/Gateshead, Lerpwl, Birmingham, Bryste a Rhydychen.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi'r cais gyda mwy na £1miliwn i gefnogi'r broses (£500 mil y llynedd a hyd at £683 mil eleni). Caerdydd yw'r unig ddinas ar y rhestr fer sydd â gwlad gyfan yn gefn iddi, ac mae hyn yn elfen gref yn ei chais.

Rydym eisoes wedi bod mewn cysylltiad â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac wedi cwrdd â Chaerdydd 2008 i drafod y camau nesaf a'r camau sydd angen eu cymryd rhwng nawr a'r adeg y cyhoeddir enw’r enillydd yn y gwanwyn. Bydd gan Gaerdydd 2008 lawer i'w wneud, a bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ysgrifennu o fewn yr wythnosau nesaf at y dinasoedd ar y rhestr fer i amlinellu'r broses iddynt a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud.

Rwy'n argyhoeddedig o fanteision ehangach datblygiadau diwylliannol, ac o statws Prifddinas Diwylliant - o ran manteision economaidd, y potensial i ddenu twristiaid a chodi proffil Caerdydd a Chymru ledled Ewrop ac ar draws y byd.

***Blwyddyn Anabledd Ewropeaidd***

I gydnabod Blwyddyn Anabledd Ewropeaidd yn 2003 rwyf wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru weithredu cynllun a fydd yn cefnogi prosiectau yn ystod ac ar ôl y flwyddyn. Dyfarnwyd bron i £300,000 i Gyngor y Celfyddydau dros dair blynedd i gefnogi gweithgareddau gan ac ar gyfer pobl anabl er mwyn iddynt gymryd rhan yn y celfyddydau cyfranogwyr a chynulleidfa. Y llynedd darparodd Cynulliad y Llywodraeth arian ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru i redeg cynllun cyffelyb - Cynllun Ariannu Amrywiaeth Diwylliannol.

***Lansio Artes Mundi***

Roeddwn yn falch o allu lansio Gwobr Artes Mundi yn swyddogol ar 23 Hydref. Mae hon yn wobr ryngwladol bwysig newydd ar gyfer y celfyddydau gweledol gafodd ei symbylu a’i datblygu yng Nghymru. £40,000 yw gwerth y wobr hon, y wobr fwyaf yn y byd ym maes y celfyddydau gweledol. Dyfernir y wobr gyntaf ym mis Mawrth 2004 ac yna bob dwy flynedd - gan greu digwyddiad pwysig iawn i ychwanegu at weithgarwch diwylliannol Cymru a bydd hefyd yn rhan allweddol o'r dathliadau os bydd cais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn llwyddiannus.

***Cymru'n Creu***

Cynhaliwyd chweched cyfarfod Cymru'n Creu ar 24 Hydref yn swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru ym Mhenllergaer. Roedd y cyfarfod yn ystyried hynt y cynlluniau gweithredu yn Creative Future:Cymru Greadigol. Ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2003 bydd adroddiad manwl yn cael ei ddatblygu i ddangos sut y mae Dyfodol Creadigol yn cael ei roi ar waith ac i nodi unrhyw lwyddiannau neu gerrig milltir ac unrhyw beth sy'n rhwystro'r gwaith.

Rhoddodd Dr Kevin Fitzpatrick, Comisiynydd (Cymru) ar gyfer y Comisiwn Hawliau Anabledd, gyflwyniad i’r grp ar y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

***Engage***

Roeddwn yn falch o gael siarad ar achlysur lansio cyhoeddiad ‘Opt for Art’ o dan nawdd ‘engage’ yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar 6 Tachwedd. ‘Engage’, a sefydlwyd ym 1988, yw'r prif gorff aelodaeth yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n ehangu cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau a chrefftau gweledol.

Mae Engage Cymru yn cael ei lywio gan Grp Datblygu Cymru sy’n cynnwys Oriel Mostyn, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Oriel 31 a Ffotogallery. Mae Engage yn gwneud gwaith pwysig i ddod â chelfyddyd i fywydau pob dydd pobl ledled Cymru - yn annog mwy o bobl i fwynhau ein horielau ac i werthfawrogi gwaith artistiaid. Mae'r cyhoeddiad 'Opt for Art' wedi'i gynhyrchu yn sgil prosiect a gynhaliwyd ar draws Cymru rhwng 1995 a 2000 a oedd yn ceisio annog disgyblion Cyfnod Allweddol 3 i ystyried gwneud celf ar gyfer TGAU ac i greu cysylltiadau rhwng ysgolion, orielau ac artistiaid.

***Derbyniad Chwaraeon***

Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru cynhaliodd Prif Weinidog Cymru a finnau dderbyniad ar 7 Tachwedd i anrhydeddu tîm Cymru yng Ngemau’r Gymanwlad, 2002 a Chlwb Criced Morgannwg. Achubwyd ar y cyfle i gyflwyno 2 fedal aur i David Morgan, y codwr pwysau, ar ôl iddo’u hennill wedi’i gyd-gystadleuydd gael ei wahardd. Cafodd y digwyddiad dderbyniad gwresog a dywedwyd ei fod yn deyrnged briodol i lwyddiant y ddau dîm a champ ein hathletwyr gorau yng Ngemau'r Gymanwlad.

***Y Fforwm Pêl-droed***

Mewn ymateb i argymhellion y Fforwm Pêl-droed, roeddwn yn falch cyhoeddi, ar 12 Tachwedd, becyn ariannu sylweddol ar gyfer datblygu pêl-droed yng Nghymru.

Yn ychwanegol i’r £220 miliwn a ddyrennir yn flynyddol drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, bydd Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-Droed Cymru yn derbyn bron i £1.3 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru dros y 3 blynedd nesaf. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i ddarparu a gwella cyfleoedd i bel-droedwyr ifanc a bydd yn creu cyfleoedd arbennig i ferched.

***Cynllun Ceir Cyngor Chwaraeon Cymru***

Cafodd yr achos yn erbyn Cyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ei gynllun ceir ei dynnu'n ôl cyn gwrandawiad y tribiwnlys. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda'i staff i wneud trefniadau teithio eraill at ddibenion gwaith.

***Adolygu Cyllid y Loteri***

Daeth y broses ymgynghori â'r cyhoedd i ben ar 30 Hydref. Derbyniodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dros 400 o ymatebion. Maent yn dal i gael eu cofnodi. Hyd yn hyn, cafwyd 17 o Gymru. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a bydd crynodeb yn cael ei roi yn y Llyfrgell maes o law.

Rydym wedi bod yn defnyddio'r Adolygiad i fwrw yn ei flaen ymrwymiad y Cynulliad i sicrhau bod gan bob un o ffrydiau ariannu'r Loteri gyfeiriad Cymreig amlwg. Dywedodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf ei fod yn cefnogi'r syniad o ddatganoli mwy o bwerau ar gyfer dyrannu arian y Loteri i'r Cynulliad. Byddaf yn ysgrifennu maes o law at Tessa Jowell i fynegi'n barn wrthi.

***Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru***

Ar ôl i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wneud cais am arian tymor byr, cyhoeddais grant o £360 miliwn.

Mae'r Ardd yn gwneud cais am arian tymor hir i ddatblygu seilwaith yr Ardd; i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf mawr;

ac i helpu'r Ardd i wella ei hadnoddau ar gyfer twristiaid a'i chyfleusterau gwyddoniaeth ac addysg.

Cyn ystyried rhoi mwy o arian, rwyf am ddeall y sefyllfa ariannol bresennol yn well yn ogystal â gofynion yr Ardd ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynulliad, felly, wedi penodi KPMG i gynnal adolygiad llawn o'r Ardd. Byddant yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn diwedd Tachwedd.

***CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru***

Ar 5 Tachwedd, bum mewn cyfarfod â Chadeirydd Cyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru) a Chyngor Archifau Cymru, a Dirprwy Gadeirydd Cyngor Amgueddfeydd Cymru. Bum yn trafod sefydlu CyMAL ar 1 Ebrill 2004. Cawsom drafodaeth eang am faterion megis staffio, rôl a swyddogaethau, ac ariannu. Buom hefyd yn trafod cydweithio â sefydliadau eraill o fewn Cymru a thu hwnt, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol a'r sector annibynnol/gwirfoddol.

***Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd newydd***

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi penodi Michael Houlihan yn Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd. Ar hyn o bryd mae Mr Houlihan yn Brif Weithredwr Amgueddfeydd ac Orielau Gogledd Iwerddon a bydd yn dechrau yn ei swydd yn y gwanwyn. Rwy'n edrych 'mlaen at weithio gydag ef a Llywydd yr Amgueddfa, Paul Loveluck, ar brosiectau cyffrous yr Amgueddfa Genedlaethol.

***Nantgarw***

Yn ddiweddar cyfarfum â Llywydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i roi cyhoeddusrwydd i fuddsoddiad y Cynulliad yn eu Canolfan Casgliadau yn Nantgarw.

Bydd yr arian hwn, £3.5 miliwn dros y 3 blynedd nesaf, yn helpu'r Amgueddfa Genedlaethol i ehangu ei Chanolfan Casgliadau. Bydd y prosiect yn golygu y bydd modd i'r Amgueddfa o leiaf ddyblu'r lle sydd yn y ganolfan at ddibenion curadurol a storio a sicrhau bod gan staff Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru y lle a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i storio a chadw’r casgliadau cenedlaethol sydd yn eu gofal.

***Ymddeoliad Jane Peirson Jones***

Ymddeolodd Jane Peirson Jones, Cyfarwyddwr Cyngor Amgueddfeydd Cymru, ddiwedd mis Hydref oherwydd salwch. Roedd Ms Peirson Jones wedi bod yn absennol o'i gwaith ers peth amser ac rwyf wedi ysgrifennu ati i ddiolch iddi am ei chyfraniad at godi proffil amgueddfeydd lleol yng Nghymru.

Gan fod yn Cyngor yn cael ei ddiddymu ym mis Ebrill 2003 gyda sefydlu CyMAL, mae swydd y Cyfarwyddwr yn cael ei hysbysebu'n fewnol.

***Culturenet Cymru***

Rwyf wedi rhoi sêl fy mendith i gonsortiwm o sefydliadau diwylliannol a chyrff eraill i ddarparu Culturenet Cymru - rhwydwaith TGCh ddwyieithog ar gyfer Cymru gyfan. Ei hen enw oedd 'Culture Cymru Online'.

Y llynedd, sefydlodd Fforwm Cymru'n Creu weithgor TGCh dan gadeiryddiaeth Andrew Green o'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatblygu'r fenter hon. Rwyf yn awr wedi cytuno ar y cynllun strategol a gweithredu a luniwyd gan y Gweithgor, ac rwyf wedi dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi'r fenter dros gyfnod o dair blynedd.

Mae Culturenet Cymru'n debygol o gynnwys dwy elfen: uned ganolog o arbenigwyr i gynllunio a chydlynu gweithgareddau; a gwasanaethau neu brosiectau penodol wedi'u comisiynu gan sefydliadau eraill neu wedi'u rhoi ar

gontract i sefydliadau eraill. Prif nod y fenter yw galluogi aelodau Cymru'n Creu i gynnig gwasanaethau ar-lein ac i greu a chynnal deunydd diwylliannol digidol o ansawdd uchel i'w ddefnyddio unrhyw le, unrhyw bryd, gan ddysgwyr mewn cyd-destun ffurfiol neu anffurfiol. Nod arall yw cyflymu twf gweithgarwch diwylliannol ar-lein ledled Cymru a helpu pobl y tu allan i Gymru i ddeall a gwerthfawrogi diwylliant Cymru. Bydd Culturenet Cymru yn rhan o Gymru Ar-lein, a fydd yn golygu y bydd ganddo gynulleidfa eang a statws a bri.

Gobeithir y bydd Culturenet Cymru'n cael ei ddarparu gan gwmni di-elw a fydd yn eiddo i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o dan Gymru'n Creu; mae'r Gweithgor yn gweithio ar hyn o bryd ar y trefniadau ymarferol.

***Diwydiant Animeiddio Cymru***

Ar 28 Hydref yn sinema UGC yng Nghaerdydd mynychais sioe o 50 o ffilmiau wedi'u hanimeiddio a gomisiynwyd gan S4C. Bydd tair ohonynt yn cael eu dangos yng Ngwyl Ffilmiau Llundain ym mis Tachwedd. Cefais gyfle i annerch yr animeiddwyr a oedd yn bresennol.

***Cyngor Llyfrau Cymru***

Ar 2 Tachwedd, cyhoeddais y byddai Cyngor Llyfrau Cymru yn derbyn £1.3 miliwn yn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i barhau i weithredu argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen ar gyhoeddi, gan gynnwys gweithredu system newydd i gomisiynu awduron a darparu cymorth golygyddol i gyhoeddwyr. Mae'r arian ychwanegol yn hwb pwysig i gyhoeddi yn y Gymraeg, a byddaf yn helpu i gryfhau seiliau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

***Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer Llyfrau Plant***

Roeddwn yn bresennol yng Nghynhadledd Llyfrau Plant yn Aberystwyth ar 2 Tachwedd i gyflwyno Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer Llenyddiaeth Plant. Cynhelir y gynhadledd bob blwyddyn gan Gyngor Llyfrau Cymru. Mae'r gwobrau'n cael eu cyflwyno i anrhydeddu awduron a dylunwyr llyfrau plant a phobl ifanc. Mae tri chategori: y ffuglen orau yn y Gymraeg, a enillwyd gan Shoned Wyn Jones am *Gwirioni*; y llyfr ffeithiol gorau, a enillwyd gan Non ap Emlyn a Marian Delyth am *Poeth!*; a'r gwaith Saesneg gorau, a enillwyd gan Malachy Doyle am *Georgie*.

***Bwrdd yr Iaith Gymraeg***

Ar 29 Hydref, cyhoeddais fod Rhodri Williams wedi derbyn gwahoddiad i weithio am dymor arall fel Cadeirydd Bwrdd yr Iaith. Bydd ei dymor newydd o dair blynedd yn para o 1 Mai 2003 tan 30 Ebrill 2006. Bydd y cyhoeddiad buan hwn yn helpu'r Bwrdd â'i gynlluniau tymor hir, ac yn rhoi cysondeb a sefydlogrwydd ar adeg o gyfleoedd mawr i'r Iaith.

***Dirprwyaeth o Ffrisia***

Ddydd Iau 7 Tachwedd, cyfarfum â dirprwyaeth o Ffrisia, yr Iseldiroedd, i drafod a chymharu'r cymorth sy'n cael ei roi i ieithoedd brodorol ein gwledydd. Roedd gan y ddirprwyaeth, o dan arweiniad Gweinidog Diwylliant Ffrisia, Dr Van Mulder, ddiddordeb arbennig yn adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg a'r gwahanol fesurau i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

***Ffilm***

Mae'r bythefnos nesaf yn brysur iawn o ran gweithgareddau ym myd y ffilm. Mae 14$^{eg}$ Wyl Ffilm Ryngwladol Cymru yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 21 - 27 Tachwedd. I gydfynd â'r digwyddiadau hyn, mae Sgrîn wedi trefnu Cynadleddau Ffocws ar Ryngweithio (18-10 Tachwedd) a Ffocws ar Ffilm (20 - 21 Tachwedd). Ar 20 Tachwedd, byddaf yn lansio Comisiwn Sgrîn Cymru yn swyddogol, a fydd yn darparu gwasanaeth lleoliadau i Gymru.

**Ymweliadau'r Gweinidog o 23 Hydref - 20 Tachwedd 2002**

**Hydref**

Mynd i berfformiad o Oklahoma, Caerdydd

Sioe Gerdd Ieuenctid Cenedlaethol

Mynd i Gyfarfod Cymru'n Creu Penllergaer ger Abertawe

**Siarad yn Sioe’r Diwydiant Animeiddio UGC, Caerdydd**

Anerchiad Allweddol Cyngor Cymru i'r Deillion Llandudno

***Tachwedd***

Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru Jenner Park, y Barri

Cymru V Lloegr

Cyflwyno Gwobrau Tir na Nóg

gyda'r Cyngor Llyfrau Aberystwyth

Anerchiad Allweddol Cynhadledd Castell Craig y Nos

Celfyddydau Gwirfoddol Cymru Blaenau Cwm Tawe

Mynychu Gala Terfynol

‘Voice of Musical Theatre’ BBC2 Theatr Newydd, Caerdydd

Mynd i Gêm Rygbi Caerdydd

Cymru V Seland Newydd

Ymweld ag Amgueddfeydd ac Orielau Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

Cenedlaethol Cymru gyda Paul Loveluck Cymru, Cathays

Achlysur

Lansio ‘Opt for Art’ Amgueddfa Ac Oriel Genedlaethol Cymru

Cinio a Chyflwyniad ar BBC 2W Llandaf

Mynychu Derbyniad Gyda’r Nos

Ar gyfer Enillwyr Medalau Gemau’r Gymanwlad Adeilad y Cynulliad

Mynychu Gwers Bêl-droed i Blant Ysgol Gynradd St Helen, Abertawe

Cinio gyda’r Gronfa Cyfleoedd Newydd Gwesty Jury’s, Caerdydd

Derbyniad ar gyfer Enillwyr Gwobr Clwyd Theatr Cymru, yr Wyddgrug

Arts and Business

Mynychu Perfformiad o Romeo a Juliet Clwyd Theatr Cymru, yr Wyddgrug

Mynd i Bwffe Cymdeithas Chwaraeon Modur

ar gyfer Rali’r Network Q

Mynychu derbyniad Rali’r Network Q Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, Cathays

Mynd i Ddangosiad Cyntaf a Derbyniad Y Gyfnewidfa Lô, Caerdydd

Screen Gems

Mynychu Cyngerdd Cyngor Cyffredinol Neuadd Dewi Sant,

Caerdydd

Dug
Caeredin
‘Pied Viper’

Mynychu
Derbyniad
Uwch
Gomisiwn
Neuadd y
Ddinas,
Caerdydd

Seland
Newydd

Lansio
Comisiwn
Sgrîn Cymru
Y Gyfnewidfa
Lô, Caerdydd

[ac][ac hefyd] Derbyniad.